making communications work
for everyone

Sharon White
Chief Executive

Direct Telephone +44 (0)20 7981 3520
Direct Facsimile +44 (0)20 7981 3504

sharon.white@ofcom.org.uk

CYFRINACHOL

Bethan Sayed, AC
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Mai 2018

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Mai 2018 ynghylch yr adolygiad thematig o gynrychiolaeth a phortread ar y BBC. Rwy'n cydnabod arwyddocâd y materion rydych chi'n eu codi a phwysigrwydd cynrychioli cymunedau yng Nghymru yn gywir a'u portreadu'n ddilys.

Roedd eich argymhellion yn cynnwys targedau newydd, mesuradwy ar gyfer cynrychiolaeth Cymraeg yn y BBC. Mae'r drwydded weithredu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU, a roddwyd gan Ofcom ym mis Hydref 2017, yn cynnwys cwotâu ar gyfer cyfran o gyllideb y BBC sy'n cael ei gwario ym mhob un o wledydd y DU. Hefyd, am y tro cyntaf, mae'n cyflwyno cwotâu cyfatebol ar gyfer nifer yr oriau o gynnwys a wneir ym mhob gwlad. Mae penderfyniadau ynglŷn â lleoliad neu ddull gweithredu timau comisiynu'r BBC yn faterion gweithredol a dydy'r rhain ddim o fewn cylch gwaith Ofcom.

Mae eich llythyr yn nodi pryderon ynghylch y ffordd caiff materion Cymreig eu cyfleu ar newyddion y BBC. Nid yw agenda newyddion y BBC a phenderfyniadau golygyddol am y newyddion a materion cyfoes yn rhan o gwmpas yr adolygiad hwn ac yn wir nid ydynt o fewn cylch gwaith Ofcom. Mae materion sy'n ymwneud â chywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy yn cael eu cynnwys yng Nghod Darlledu Ofcom. Prif amcan ein hadolygiad yw ystyried pwy sy'n ymddangos ar y sgrin a sut maen nhw'n cael eu portreadu. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ofyn am safbwyntiau pobl ynglŷn â sut maen nhw a'u cymunedau'n cael eu cynrychioli a'u portreadu gan y BBC. Gallai hyn godi materion sy'n ymwneud â'r newyddion yn y cenhedloedd a byddwn yn adlewyrchu'r materion hyn yng nghanfyddiadau'r adolygiad hwn. Er yn canolbwyntio ar deledu, rydym yn disgwyl y bydd ein canfyddiadau'n berthnasol ar draws yr holl blatfformau, yn cynnwys radio.

Rwy'n nodi eich bod chi'n galw am i Gymru gael ei chynnwys fel un o'r "grwpiau gwahanol" rydyn ni'n bwriadu casglu data meintiol ac ansoddol yn eu cylch. Bydd ein rhaglen ymchwil defnyddwyr ar gyfer yr adolygiad yn cynnwys gwaith ymchwil ansoddol sylweddol lle rydyn ni'n siarad â phobl o amrywiaeth o gefndiroedd a chymunedau, mewn amrywiaeth o leoliadau ledled gwledydd y DU. Cynhaliwyd grwpiau ymchwil yn Abertawe, Aberystwyth a Chonwy, er mwyn sicrhau bod ein dewis o leoliadau yng Nghymru'n cyflwyno ystod eang o safbwyntiau.

Office of Communications
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
Telephone +44 (0)20 7981 3000
or +44 (0)300 123 3000
Facsimile +44 (0)20 7981 3333
www.ofcom.org.uk

Ynghylch penderfyniad y BBC i adfer swydd Cyfarwyddwr Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC, nid ydym yn gallu cynnal archwiliad i'r mater hwn gan nad yw materion llywodraethu'r BBC o fewn cylch gwaith Ofcom.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi. Bydd fy nhim yn fwy na pharod i drafod canfyddiadau'r adolygiad thematig gyda chi a'r Pwyllgor yn dilyn ei gyhoeddiad.

Yn gywir,

Sharon White